Cylch Meithrin Llanrug

Adroddiad a Datganiad Ariannol Blynyddol Anarchwiliedig

01-04-2024– 31-03-2025

Rhif Cofrestredig Elusennol: 1189596

Cylch Meithrin Llanrug

Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol

Prif Gyswllt:
Arweinydd: Nichola Griffiths Jones

Swyddfa Gofrestredig:
Cylch Meithrin Llanrug, Ysgol Gynradd Llanrug, Llanrug, Caernarfon Gwynedd.

Person Cofrestredig:
Sara Hywel

Yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2025

Swyddogaeth	**Enw**
Cadeirydd	Heledd Hulson
Ysgrifennydd	Sara Hywel
Trysorydd	Vicky Jones

Cylch Meithrin Llanrug

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
Dymuna'r pwyllgor gyflwyno eu hadroddiad a datganiad ariannol yr elusen am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025.

Nod ac Amcanion:

Mae Cylch Meithrin Llanrug yn gweithredu dan gyfansoddiad wedi ei greu gan y Mudiad Meithirn. Mae ymddiriedolwyr yn cael eu apwyntio bob blwyddyn yn y Cyfarfod Blynyddol drwy gytundeb y pwyllgor rheoli.

Prif amcan yr elusen yw rhoi addysg i blant rhwng 2.5 a 4 oed ym mhentref Llanrug a'r cyffiniau er mwyn iddynt fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cylch yn darparu sesiynau ar gyfer plant 2.5 i 3 oed yn ogystal a sesiynau clwb brecwast a clwb cinio ar gyfer plant 3-4 oed. Darperir hefyd un sesiwn Ti a Fi bob wythnos. Mae'r Cylch yn cyflogi arweinydd ac o leiaf dau gymhorthydd er mwyn darparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd, ond rheolir yr elusen gan bwyllgor o wirfoddolwyr. Ceisir annof rhieni i fod yn aelod o'r pwyllgor gwirfoddol. Gwneir hynny bob mis Medi.

Strwythyr a threfniant

Mae'r elusen yn cael ei redeg gan bwyllgor/ymddiriedolwyr sydd fel arfer yn rieni y plant sydd yn mynychu'r Cylch. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod dwy waith y tymor. Mae gweithgareddau dydd i dydd y Cylch yn cael ei reoli gan y staff cyflogedig gyda chefnogaeth gan Swyddog Cefnogi y Mudiad Meithrin.

Datblygiadau, gweithgareddau a'r hyn a gyflanwyd

Nid oedd newidiadau sylweddol yng ngweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn. Blaenoriaeth Cylch Meithrin Llanrug yw i barhau i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y y Gymraeg i blant oed cyn-ysgol yr ardal mewn awyrgylch cynned a chyfeillgar.

Llwyddiannau a pherfformiad

Llwyddwyd i ddarparu gwasanaeth blynyddoedd cynnar I 48 o blant ardal Llanrug. Cynhaliwyd cyngherddau Nadolig a Gwyl Ddewi. Cafwyd nifer o weithgareddau codi arian hefyd yn cynnwys taith gerdded.

Cynllun Gofal 30 Awr

Mae Cylch Meithirn Llanrug yn rhan o'r Cynllun Gofal 30 awr. O dan y cynllun, gall rieni cymwys hawlio hyd at 30 awr o addysg cynnar a gofal plant bob wythnos, hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Polisi cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw'r cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb gael eu clustnodi ar gyfer unrhyw bwrpas penodol arall.

Cadwir cronfeydd at gostau rhedeg o dydd i dydd yr elusen ac i fod yn ddigonol am o leiaf tri mis o wariant os bydd incwm cyffredinol yn gorffen.

Roedd cronfeydd o £32,849 yn y banc ar 31 Mawrth 2025.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar 28 Ionawr ac arwyddwyd are u rhan gan Vicky Jones (Trysorydd)

Cylch Meithrin Llanrug

Adroddiad Arholwr Annibynnol i Aelodau Cylch Meithrin Llanrug

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr eluson uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025, a ymddengys ar dudalen 5.

Cyfrifoldebau'r a'r sail adrodd
Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol a gofynion Deddf Elusennau 2011 (y Deddf).

Adroddaf mewn perthynas a'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd a'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

Datganiad yr Arholwr Annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas a'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb a'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhwy faterion eraill mewn perthynas a'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynyt er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

D A Chidley
W. J. Matthews a'i Fab
Cyfrifwyr Siartredig,
11-15 Y Bont Bridd,
Caernarfon,
Gwynedd.

Dyddiedig:

CYLCH MEITHRIN LLANRUG

CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU

AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 MAWRTH 2025

	2025 £	2024 £
Incwm:		
Ffioedd Plant	21,457	18,142
Grant Cyngor Gwynedd 30 Awr	64,836	63,710
Incwm Codi Arian:	1,938	1,932
Ti a Fi	755	223
Rhodd	-	2,050
	£88,986	£86,057
Gwariant		
Gweithgareddau Elusennol:		
Cyflogau	80,642	71,378
Rhent	1,125	-
Offer, nwyddau ac adnoddau	6,762	6,083
	88,529	77,461
Gwariant arall		
Costau ffon	273	250
Costau proffesiynol	287	125
Costau banc	67	65
Costau codi arian	281	587
Cyngor hyfforddiant	375	-
	1,283	1,027
Cyfanswm gwariant	89,812	78,488
Incwm / (gwariant) Net am y flwyddyn	(826)	7,569
Arian mewn banc ac mewn llaw		
Ar 31 Mawrth 2024	33,675	26,106
Ar 31 Mawrth 2025	£32,849	£33,675

Ymddiriedolwyr

Ni dalwyd cyflog na ffioedd i unrhyw ymddiriedowr yn ystod y flwyddyn. (2024 – DIM). Ni wnaed ad-daliadau i ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn (2024 - DIM).

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar 28 Ionawr 2026 ac arwyddwyd ar eu rhan gan

Vicky Jones
Trysorydd